Gwasanaeth Gwirfoddol
BIP Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

# GWIRFODDOLWR HYB YR ELUSEN IECHYD

Profiad y Claf

**Lleoliad**
*Ardal y Cyntedd YAC*

**Yn adrodd i**
*Uwch Swyddog Marchnata a Chyfathrebu*

**Yn atebol i**
*Rheolwr Gwasanaethau Gwirfoddol*

**Ymrwymiad Amser**
*aUchafswm o 2 awr y sesiwn i weithio dros amser cinio 11am -1pm. Argaeledd i weithio o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nifer o sesiynau ar gael neu un sesiwn yr wythnos*

**Gwiriadau Gofynnol**

*DDBS (Gwiriad Cofnodion Troseddol), Gwiriad Iechyd Galwedigaethol, Dau Eirda cynhelir gan y Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol*

**Treuliau**
*Caiff treuliau teithio i/o leoliad ar ddiwrnod gwirfoddoli eu had-dalu*

**GOFYNION PERSONOL**

- Meddu ar sgiliau gwrando rhagorol a bod yn anfeirniadol.
- Bod yn hyderus wrth gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr, staff ac aelodau cyffredinol o'r cyhoedd.
- Bod yn frwdfrydig am nodau a gwaith BIP Caerdydd a'r Froa'r Elusen Iechyd
- Dangos lefelau o empathi a dealltwriaeth bob amser.
- Edrych yn drwsiadus, yn smart a gwisgo gwisg a bathodyn adnabod Gwirfoddolwr y BIP bob

## NOD Y GWASANAETH

Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yw elusen swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd Hyb yr Elusen Iechyd yn lle croesawgar, addysgiadol a diddorol sy'n cefnogi cleifion, ymwelwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach.Mae'r Elusen Iechyd yn darparu cefnogaeth ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan, gan gynnwys ar wardiau ysbytai, adrannau, gwasanaethau iechyd cymunedol, a meysydd ymchwil ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

## AMLINELLIAD O'R DYLETSWYDDAU

- Croesawu ymwelwyr i'r Hyb a chynnig cymorth cyffredinol neu gyfeirio pobl.
- Darparu gwybodaeth am weithgareddau, digwyddiadau a ffyrdd y gall pobl gymryd rhan yr elusen.
- Helpu i gadw'r Hyb yn daclus, yn drefnus, ac wedi'i gyflwyno'n dda.
- Cynorthwyo staff gyda thasgau ysgafn fel paratoi deunyddiau, trefnu stoc, neu ddiweddaru byrddau gwybodaeth.
- Gweithredu fel llysgennad cadarnhaol i'r elusen.

## PRIF DASGAU

- Rhoi adborth i staff yr Elusen Iechyd
- Bod yn fodel rôl cadarnhaol
- Cyfeirio
- Casglu data perthnasol

## HYFFORDDIANT A CHYMORTH

Bydd angen i wirfoddolwyr ymgymryd â rhaglen Hyfforddi ac Ymsefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## FFINIAU PWYSIG

Ni fydd gwirfoddolwyr yn ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau staff.
Nid yw'r rôl yn cynnwys trin arian
Mae angen i wirfoddolwyr ddeall ffiniau proffesiynol

- Edrych yn drwsiadus, yn smart a gwisgo gwisg a bathodyn adnabod Gwirfoddolwr y BIP bob amser.
- Cydnabod pryd i atgyfeirio materion a chwestiynau at staff y BIP.

**Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu trin yn gynhwysol gan y Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol a byddant yn cael cynnig goruchwyliaeth ac arweiniad parhaus.**

## GOFYNION ARBENNIG

- Yn hyderus wrth weithio gydag aelodau o'r cyhoedd ac aelodau staff
- Yn meddu ar ddealltwriaeth dda o rôl elusen

## MANTEISION I'R GWIRFODDOLWR

Mae'r rôl hon yn cynnig:

- Profiad o weithio mewn tîm.
- Y cyfle i ddatblygu sgiliau a phrofiad personol.
- Y cyfle i gwrdd â phobl newydd
- Boddhad o gynorthwyo eraill a darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned.

## MANYLEB Y PERSON

| Meini prawf | Essential | Desirable |
|---|---|---|
| Deall pwysigrwydd cyfrinachedd a dilyn gweithdrefnau | x | |
| Profiad o weithio mewn lleoliad gofal iechyd | | x |
| Sgiliau cyfathrebu da | x | |
| Y gallu i siarad Cymraeg | | x |
| Gallu gweithio ar eich menter eich hun ac fel rhan o dîm | x | |
| Dibynadwy a phrydlon | x | |
| Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant | x | |
| Ar gael ar gyfer yr amseroedd gofynnol | x | |
| Brwdfrydig a llawn cymhelliant | x | |
| Profiad o wirfoddoli | | x |
| Dealltwriaeth o rôl yr Elusen Iechyd | | x |
| Profiad o fod yn gyfaill | | x |



Kind and caring / Caredig a gofalgar | Respectful / Dangos parch | Trust and integrity / Ymddiriedaeth ac uniondeb | Personal responsibility / Cyfrifoldeb personol